| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 22 Mehefin 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Uwch Ymgynghorydd Craffu ac Iaith |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 9 Mai 2023 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2023/24. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Daeth chwe phrif flaenoriaeth i'r brig o'r ymatebion i'r cwestiwn, sef:

- Polisi Gosod Tai a Rhestr Aros Tai
- Gwasanaeth Gofal Cartref
- Cynllun Gweithredu Tai
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Trefniadau Rheoli a Chynnal Cartrefi Gofal
- Gwasanaeth Gofal Dydd

3. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2023/24. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

5. Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad gweler rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

6. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2023/24

| **22/06/2023** |
|---|
| • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)<br>• Canfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaeth Diogelu Plant |
| **21/09/2023** |
| • Polisi Gosod Tai a Rhestr Aros Tai<br>• Siop Un Stop Tai<br>• Llety cefnogol cyffredinol gan gynnwys gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a chefnogaeth i ferched |
| **23/11/2023** |
| • Gwasanaeth Gofal Dydd<br>• Trefniadau rheoli a chynnal cartrefi gofal<br>• Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl |
| **01/02/2024** |
| • Cynllun Gweithredu Tai<br>• Gwaith ataliol a gomisiynir i'r trydydd sector (oedolion a phlant) |
| **11/04/2024** |
| • Gwasanaeth Gofal Cartref<br>• Gwasanaeth Egwyl Fer (Tîm Integredig Derwen) |

Eitemau i'w rhaglennu:

Briff Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth

Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth